

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn am 7pm. Nos Iau 10fed o Ionawr 2019 Yn Eglwys Sant Pedr

## Agenda

Gweddi

Presennol / Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion 8fed o Dachwedd 2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid

- Adroddiad o'r IBC 28/11/18
- Cadarnhad BDO iddynt fod wedi cwblhau eu archwiliad
- Ceisiadau Ad 137
  - *Clwb Y Garnedd*
  - Abbey Road
  - Theatr Bara Caws
- Taliadau
  - D W Lewis Torri Mis Tachwedd £320.00
  - Cyflog Mis 8 Hydref £443.00
  - HMRC Mis 8 £110.80
  - Lleng Brydeinig 2 Dorch Sul y Cofio £ 40.00
  - Gas Safe Profion Uned 15 £ 60.00
  - Snowdonia Fire Protection Profion Uned 15 £143.76

G Williams (tyrchod)

Dal tyrchod (amcanbris £150)

Cytuno Gyllideb 2019-20 - Cais Praesept i fod i mewn hefo Cyngor Gwynedd erbyn 25ain o Ionawr

Ceisiadau Cynllunio diweddar ardal Pentir

- C18/1106/25/LL Ysgol Treborth, Treborth, Bangor, Gwynedd, LL572RX  
Addasu adeiladau allanol segur i ddarparu llety myfyrwyr

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
  - Giat y Fynwent
  - Llwybrau'r Fynwent
  - Maes Parcio'r Fynwent
  - Hysbysfyrdd Ysbyty Gwynedd
  - Biniâu Halen
  - Prydles Canolfan Penrhos
  - Traelia Cyngorwyr a Newid Graddfa Cyflog y Clerc yn Mis Ebrill

Materion y Cyngorwyr

Cyng James Griffiths Cyflwr wyneb y ffordd o hen eglwys Glasinfryn i'r groeslon Waen Wen. Mae safon y ffordd bellach yn ddifrifol.

**Ynglyn a Thyn Ffridd. Fel y gwyddoch y mae nifer o dai ar safle T Ff a phob un hefo rhif o dan y cyfeiriad Waen Wen Cottages, Tyn Ffridd. O ganlyniad i hyn fe ddaw llythyrau a pharseli i dai Waen Wen 3 Waen Wen gan fod y Cottages wedi cael ei adael Oes posib codi'r mater yma hefo Swyddfa'r Post iddynt ddwyn perswad ar berchnogion Tyn Ffridd i newid cyfeiriad y tai o Waen Wen Cottages i Tyn Ffridd Cottages**

Cyng M Baines

Cyng Dafydd Jones-Morris

Cae Chwarae Ffordd Cynan

Gwahodd Tomos Hughes ynglyn a Diffibs

Bin Sbwriel wrth Ysbyty Gwynedd wedi cael ei wthio drosodd

Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. 11/01/19

Cyng Lowri James

# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 8<sup>fed</sup> o Dachwedd 2018 yn Glasinfryn am 7pm**

## **Presennol:**

Y Cyng. D W Jones, J Pierce, C Hughes, D Jones-Morris, R Jones, M Baines, H Griffiths a James Griffiths  
E Jones (Clerc)

## **Ymddiheuriadau:**

Y Cyng, Modlen Lynch, T Anwyl-Williams B Jones, a L James

## **Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.**

Yn ei sylwadau agoriadol croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol i'n cyfarfod cyntaf tu allan i Swyddfa Parc Menai ers amser maith.

## **Côd Ymddygiad**

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os cyfyd yr angen

## **Cofnodion 4ydd o Hydref**

Cyng D W Jones yn cynnig eu bod yn gofnod cywir a'r Cyng M Baines yn eilio

## **Materion yn codi o'r cofnodion**

Arwyddion llwybrau – cadarnhawyd fod yr arwyddion bob pen i llwybr Ty'n Ffridd a wrth Tyddyn Heilyn Esboniodd y Clerc iddo holi Cyngor Gwynedd ynglyn a chael stribedi mesur cyflymder ar yr A4244 ym Mhentir yn dilyn cais drwy'r Cyng Lleol ar ran 'Parchu Pentir'  
Ymateb i Shon Williams ynglyn a ffordd/llwybr Glan y Mor i ddatgan nad oes gennym fel Cyngor Cymuned y pwerau i ddatrys y problemau mae'n cyfeirio atynt yn ei e-bost atom

## **Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid**

- Adroddiad o'r IBC 31/10/18 dosbarthwyd cofnodion gan nodi nad oeddent wedi eu derbyn yn gywir tan yr IBC nesaf fyddai ymlaen ddiwedd Tachwedd
- BDO Y Clerc heb dderbyn dim gohebiaeth
- Ceisiadau Nawdd Goriad wedi gwneud cais am Rodd eto eleni ond yn anffodus wedi atodi Manolen Ariannol 2016-17

**Argymell £300.00 eto eleni ond y Clrc i lythyru i ofyn am Fantolen araiannol 2017-18**

## **Taliadau** Cytunwyd argymhellion talu

D W Lewis	Torri Mis Hydref	£690.00	Cyflog	Mis 7 Medi	£443.00
HMRC	Mis 7	£110.80	Gofalwraig	Ebrill i Hydref	£150.00
Anghenion Swyddfa	Manion	£ 50.92	Gwilym Hughes	Torri Llwybrau Pentir	£900.00
Eric Jones Paentwr	Paentio'r Swyddfa	£375.00	Unllais	Hyfforddiant	£ 40.00
Cyngor Gwynedd	Archwyllo Mewnol	£192.00			

**Derbynebion** Tal am 2 angladd £540.00

**Ceisiadau Cynllunio** ardal Pentir

Nid oedd cais Cynllunio wedi ei wneud yn ystod y mis yn ardal Pentir

## **Materion y Clerc**

- Gohebiaethau
  - Mapio Diffibs Adroddwyd i'r Clerc gael cais gan Gwmni yn holi faint o beiriannau Diffib cymunedol oedd yn y Gymuned

Cafwyd peth trafodaeth a sonwyd am ystyried i'r Cyngor brynu peiriannau ar gyfer ein cymunedau. Pentir eisioes wedi prynu peiriant ei hunain a sonwyd am y fantais sydd yna yn yr elfen o 'berthyn' pan mae trigolion lleol wedi ymdrechu i hel tuag at gael rhywbeth

**Cytunwyd i'r Clerc gysylltu a Tomos Hughes Cyd-lynydd Gogledd-Cymru i'n cyfarfod yn ystod y misoedd cyntaf 2019**

- Adroddiadau
  - Binau Halen Dal i ddisgwyl am brisiau binau ychwanegol
    - Cais i ystyried rhai ychwanegol i Rhosfryn a Coed y Maes yn ogystal a'r rhai gytunwyd i'w cael i Ion Fodolydd eleni  
**Cytunwyd disgwyl am y prisiau**
  - Datblygiad Ysgol y Faenol
  - Ymatebion Y mwyafrif llethol yn bositif cadarnhaol ag adeiladol  
Sawl aelod a'r Clerc wedi bod yn bresennol yn ystod un o'r ddau ddiwrnod agored  
**Datganwyd pryder ynglyn a'r diffyg Hysbysebu mysg y cyhoedd fod y diwrnodau agored ymlaen**
  - Gamlins Dim datblygiad parthed y prydles

#### ❖ Damwain Giat y Fynwent

O ganlyniad i ddamwain car dinistrwyd pilar cerrig giat y fynwent ganol Hydrefcafwyd 'Roedd y cerbyd naill ai wedi mynd ar dán neu wedi ei losgi.

Trefnodd y Clerc fod y lle yn cael ei wneud yn diogel – neu mor ddiogel a phosib.

Trefnwyd i gario'r giat i mewn i'r Capel o ran diogelwch

Cysylltwyd gyda'r Gwasanaeth Tan ag Achub gan ei bod wedi ymweld a'r safle

Cysylltwyd a'r Heddlu

Cysylltwyd a'n Cwmni Yswiriant

Yn amlwg ni fydd yn bosib adnewyddu y safle yn sydyn cymaint yw'r difrod

Mae'r Capel wedi ei gofrestru gyda CADW a'r Cyng C E Hughes wedi holi os oedd y giat hefyd yn rhan o'r cofrestru?

Y cyngor gafwyd oedd i geisio ei adfer yn ol i'r ffurf gwreiddiol.

Adroddodd y Clerc ei fod yn siomedig iawn yn ymateb yr Heddlu wrth ymdrin a'r digwyddiad

'Roedd wedi cysylltu a'r Cwmni Yswiriant i holi os oedd posiblwydd fod llygredd amgylcheddol yna yn dilyn golchi'r olew i lawr tarmac y fynwent

Nodwyd fod y Cyngor yn ddiolchgar i'r Clerc am ymateb yn ddi-ymdroi i'r sefyllfa

#### Materion y Cyngorwyr

**Cyng D Morris –Jones** yn adrodd fod problem parcio ar y palmant yn Penrhos gan gar Taxi Mon ond fod y mater yn nwylo Cyngor Gwynedd. Pryderai yn aruthrol am y gor-yrru sy'n parhau ar hyd Ffordd Penrhos ag y dylid trefnu cyfarfod safle gyda swyddogion trafndiaeth Cyngor Gwynedd

**Cyng R T Jones** - Yn adrodd fod Ffens Herios yn an-sad ar y tir wast cyffordd Ffordd Menai a Ffordd Penrhos **Clerc i gysylltu a Gwynedd**

**Cyng C E Hughes** – Parchu Pentir wedi holi os oedd posib darparu llecyn parcio ar y tir wrth Queens Terrace gan fod y lle yn fler o ganlyniad fod trigolion yn parcio ar lle ddylai fod yn wyrdd.

'Roedd y Clerc wedi codi y mater hefo Cyngor Gwynedd oedd yn ffyddiog mae eu tir nhw yw'r tir Pam felly mae Cyngor Pentir sy'n gyfrifol am dorri'r gwair yn fisol.

#### **Y Clerc y wneud ymholiadau**

Yn unol a'r arfer **Cyng T Anwyl** oedd yn ei absenoldeb wedi cymeryd cyfrifoldeb am drefnu Swper Nadolig gan anelu tuag at 13eg o Rhagfyr yn Ty Golchi

#### **Gofynnwyd i'r Cyngorwyr lleol longyfarch Pwyllgor Canolfan Glasinfryn ar gyflwr y Ganolfan**

Daeth y cyfarfod i ben 9.25

Cyfarfod nesaf Nos Iau 10fed o Ionawr